


# Croesfannau Rheilffordd

## Lawrlwythwch yr arweiniad a deallwch y rhybuddion

Mae sawl math gwahanol o groesfannau rheilffordd a mesurau diogelwch ledled rhwydwaith rheilffyrdd Prydain. Blaengynlluniwch, byddwch yn wyliadwrus a byddwch yn fwy gofalus a sylwgar nag arfer ger croesfannau rheilffordd.

Am fwy o wybodaeth ar sut i ddefnyddio croesfannau'n ddiogel ac i ddeall mwy am y mathau gwahanol o rybuddion a signalau, lawrlwythwch ein harweiniad rhad ac am ddim ar groesfannau rheilffordd.

Mae fersiynau hygyrch a BSL ar gael i'r rhai sydd eu hangen hefyd o **networkrail.co.uk/level crossings**

Signly

Ar gyfer BSL a fersiynau clywadwy, lawrlwythwch 'Signly Network Rail' yn rhad ac am ddim o'r Apple App Store neu Google Play ac anelwch eich dyfais at y poster hwn

# Croesfannau Rheilffordd – gwybodaeth elfennol am ddiogelwch

## Agosau at groesfan reilffordd:

- Byddwch yn ymwybodol o unrhyw rybuddion clywadwy a gweledol
- Byddwch yn ofalus ac yn barod i aros. Os yw'r rhybudd yn dechrau wrth ichi agosáu, peidiwch â mynd yn eich blaen

## Croesi ar groesfannau rheilffordd:

- Byddwch yn amyneddgar wrth aros i drên basio - nid oes unrhyw amser aros penodol gan fod cyflymder trenau ac amserlenni'n gallu amrywio'n fawr, a gall fod ail drên hefyd yn agosáu
- Croeswch mor gyflym ag y gallwch pan fydd yn ddiogel ichi wneud hynny, gan gadw plant yn agos atoch a chŵn ar dennyn
- Os bydd rhybudd yn dechrau tra eich bod ar y groesfan reilffordd peidiwch â chyffroi. Parhewch i groesi mor gyflym ag y gallwch

## Am fwy o wybodaeth a chyngor am ddefnyddio croesfannau rheilffordd cysylltwch â:

- Ein Llinell Gymorth Genedlaethol ar **03457 11 41 41** (deialwch 18001 cyn y rhif er mwyn defnyddio Type Talk)
- E-bostiwch ni neu siaradwch gyda ni trwy ein linc cymorth byw: **networkrail.co.uk/contact**